

## ASTUDIAETH ACHOS CYFLOGWYR



Wedi'i sefydlu yn 1988, mae RDM wedi tyfu o gcontractwr gwasanaethau trydanol lleol i ddarparwr datrysiadau gwasanaethau adeiladu gwerth miliynau o bunnoedd. Mae RDM yn ymgymryd â phob math o brosiectau o'r bach i'r mawr, gan gynnwys dylunio ac adeiladu pob gwasanaeth mecanyddol, trydanol ac arbenigol. Mae hefyd yn gweithredu contract mawr ar draws yr Ystadau Amddiffyn sy'n cynnal ei seilwaith a'i wasanaethau hanfodol.

### Pwysigrwydd Cymwysterau

Mae cymwysterau yn ffon fesur hanfodol o fewn y busnes. Mae hyn yn cyfrannu at gymhwysedd ein gweithlu ochr yn ochr â'r profiad ymarferol y mae ein gweithwyr yn ei ennill. Rydym yn ymfalchïo yn natblygiad proffesiynol parhaus ein staff ac yn cynnig dilyniant gyrfa o brentisiaid hyd at hyfforddiant lefel gradd.

Rydym hefyd yn cefnogi staff i ennill cymwysterau ac aelodaeth sy'n gysylltiedig â'r diwydiant fel yr IET a CIBSE.

I grynhoi, er mwyn cynnal y safonau uchaf o fewn y cwmni, rydym wedi ymrwmo i'n gweithlu gael ei hyfforddi, ei gymhwyso a derbyn profiad yn barhaus i sicrhau cymhwysedd gyda'r technolegau ac arloesedd diweddaraf yn ein sector.

### Beth fydd y cymwysterau newydd yn ei olygu i'm cwmni

Oherwydd natur amrywiol ein diwydiant, credwn ei bod yn hanfodol sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cyfle sydd ar gael iddynt fel llwybr gyrfa cyn gynted â phosibl.

Gan fod yr addysgu presennol yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yn gyfyngedig, dim ond rhai myfyrwyr nad ydynt yn ymwybodol o'n diwydiant/sector tan yn ddiweddarach yn eu bywyd academiaidd, ac felly efallai eu bod eisoes wedi dewis llwybr gyrfa amgen. Bydd dealltwriaeth o'r amgylchedd adeiledig o oedran cynharach yn helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr.

Bydd deall y diwydiant ehangach hefyd yn datblygu pwysigrwydd gwybodaeth a rhyngweithio rhwng pob crefft.

### Rhesymau pam y byddwn yn argymhell gyrfa yn y diwydiant/sector

- Cymhwyster a sgiliau bywyd
- Profiad – hyfforddiant yn y swydd (ar y safle ac yn y swyddfa)
- Cyfleoedd ar gyfer camu ymlaen yn eich gyrfa – ystod amrywiol o arbenigeddau a swyddi:
  - Gallwch geisio arbenigo mewn maes penodol o'r diwydiant h.y. rheolaethau adeiladu/goleuadau/ Foltedd Uchel/Systemau Diogelwch Bywyd ac ati.
  - Gallwch weithio mewn sawl rôl peiriannydd safle/dylunio/amcangyfrif /rheoli prosiect/ peiriannydd comisiynu ac ati.
- Arloesi a thechnoleg – gyda datblygiad cyflym technolegau deallus newydd, mae mwy a mwy o rolau'n datblygu gyda'r diwydiant.
- Buddion o'r diwrnod cyntaf – cyfraddau cyflog rhagorol.

### Drew Evans – Peiriannydd Trydanol ar Brentisiaeth (blwyddyn 2)

Mae gweithio fel prentis yn y diwydiant yn bleserus iawn ac rwyf wedi cael cymaint o wybodaeth gan bobl gymwysedig. Gan ddechrau fel prentis roeddwn yn poeni na fyddai pobl am fy helpu gyda gwaith, ond dyma'r gwrthwyneb llwyr gan fod pawb eisiau'r gorau i chi ac eisiau eich helpu i ddatblygu yn eich gyrfa. Mae'r diwydiant adeiladu yn llawn cyfleoedd ac mae pob un ohonynt yn arwain at yrfa wych. Mae cymaint o gyrsiâu yn y coleg a'r brifysgol sy'n dda iawn i'ch helpu i hyrwyddo eich dysgu sy'n rhan o'r brentisiaeth. Byddwn yn argymhell unrhyw un sydd â diddordeb yn y diwydiant i fynd amdano. Roeddwn yn cwestiynu a fyddai'n addas i mi, ond nid wyf wedi edrych yn ôl ers hynny.

## ASTUDIAETH ACHOS LLYSGENNAD

Chris Jenkins



### Pam y cefais fy nenu at y diwydiant

Roedd natur amrywiol y diwydiant yn cynnig cyfleoedd diderfyn ar gyfer camu ymlaen yn eich gyrfa yn apelio ataf. Rwy'n mwynhau datrys problemau ac mae gennyf ddiddordeb brwd mewn technolegau newydd, ac rwy'n mwynhau cymryd rhan yn ymarferol.

### Cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol

Dechreuais fel prentis a gweithiais mewn sawl rôl o amcangyfrif, rheoli prosiectau a rheoli dyluniad prosiectau dylunio ac adeiladu gwerth miliynau o bunnoedd. Rwyf bellach wedi symud ymlaen i rôl Cyfarwyddwr o fewn y busnes. Ceir datblygiad proffesiynol parhaus gyda thechnolegau a chymdeithasau allweddol y diwydiant.

### Rwy'n mwynhau astudio neu weithio yn y diwydiant hwn oherwydd ...

Fel y gwelwyd, mae mor amrywiol. Nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Mae technoleg yn esblygu'n barhaus, ac mae ein diwydiant ar flaen y gad yn yr amgylchedd adeiledig.